CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	**Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**
Dyddiad y Cyfarfod:	**27 Medi 2022**
Teitl:	**Ymateb RhCAM i Gynllun Gweithredu Gwella Asesu Ansawdd Allanol.**
Pwrpas yr adroddiad:	**Darparu ymateb i'r Aelodau i'r argymhellion a wnaed yn Asesiad Ansawdd Allanol Archwilio Mewnol.**

Mae Nodyn Cais Llywodraeth Leol Y PSIAS a CIPFA yn disodli Cod Archwilio Mewnol 2006 a daeth i rym o fis Ebrill 2013.

Rhaid cydymffurfio â'r PSIAS a'r Nodyn Cais er mwyn sicrhau bod arferion archwilio mewnol priodol yn gymhwys. Mae'r Nodyn Cais yn cynnwys rhestr wirio sydd wedi'i ddatblygu i fodloni'r gofynion a nodir yn PSIAS 1311 a 1312 ar gyfer hunan-asesiadau cyfnodol fel rhan o'r Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella.

Mae'n ymgorffori gofynion y PSIAS yn ogystal â'r Nodyn Cais er mwyn rhoi sylw cynhwysfawr i'r ddwy ddogfen.

Cynhaliodd tîm Archwilio Mewnol Ynys Môn adolygiad gan gymheiriaid o asesiad cyfoedion 2021/22 Ceredigion RhCAM rhwng Mai – Gorffennaf 2022 i ddarparu asesiad allanol o gydymffurfiaeth y gwasanaeth, yn ôl y gofyn gan PSIAS.

Argymhelliad:	I nodi'r adroddiad ac ymateb y gwasanaeth i Asesiad Ansawdd Allanol yr Adran Archwilio Mewnol.
Rheswm dros yr argymhelliad:	Er mwyn sicrhau bod y pwyllgor yn fodlon bod y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ymateb yn unol â'r argymhellion a wnaed yn yr asesiad.
Atodiadau:	Ymateb y Rheolwr Corfforaethol Archwilio Mewnol i Asesiad Ansawdd Allanol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol.
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyfreithiol a Llywodraethu / Swyddog Monitro
Swyddog Adrodd:	Alex Jenkins Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol
Dyddiad:	19 Awst 2022

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd yn Saesneg
This document is also available in English

GWASANAETHAU CYFREITHIOL A LLYWODRAETHU

LEGAL & GOVERNANCE SERVICES

GWASANAETH ARCHWILIO MEWNOL

INTERNAL AUDIT SERVICE

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Ymateb y Rheolwr Corfforaethol - Archwilio Mewnol i'r:

ASESIAD ANSAWDD ALLANOL O ARCHWILIO MEWNOL

Paratowyd yr Adroddiad gan: Alex Jenkins, Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol

Dyddiad Cyhoeddi: 22 Awst 2022

Mae’r ddogfen hon ar gael hefyd yn Saesneg
This document is also available in English

Ymateb y Rheolwr Corfforaethol - Archwilio Mewnol i’r:

ASESIAD ANSAWDD ALLANOL O ARCHWILIO MEWNOL

CEFNDIR

Daeth Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus i rym ar 1 Ebrill 2013 ac roeddent yn cyflwyno gofyniad i gynnal asesiad allanol o bob gwasanaeth archwilio mewnol. Rhaid cynnal y rhain o leiaf unwaith bob pum mlynedd a hynny gan adolygydd cymwys, annibynnol o du allan i’r sefydliad.

Gwnaeth tîm adolygu o Gyngor Sir Ynys Môn, a oedd yn cynnwys y Pennaeth Archwilio a Risg a’r Prif Archwilydd, gynnal gwerthusiad o hunan-asesiad Cyngor Sir Ceredigion a hynny rhwng Mai a Gorffennaf 2022. Yn unol â’r Safonau Archwilio Mewnol, roedd gan y ddau adolygydd y cymwysterau priodol ac roeddent yn archwilwyr mewnol profiadol.

Mae'r Safonau Archwilio Mewnol (PSIAS yw’r acronym Saesneg) yn cwmpasu elfennau gorfodol o Fframwaith Arferion Proffesiynol Rhyngwladol (IPPF) Sefydliad yr Archwilwyr Mewnol (IIA), sef: y Diffiniad o Archwilio Mewnol, y Côd Moeseg, a'r Safonau Rhyngwladol ar gyfer Gwaith Proffesiynol Archwilio Mewnol.

Ledled elfennau gorfodol y Safonau Archwilio Mewnol, mae yna 56 o feysydd neu safonau arfer orau sy'n cynnwys 304 o linellau arfer orau.

Roedd yr asesiad dilysu a wnaed ym mis Gorffennaf 2022 gan Gyngor Sir Ynys Môn wedi dod i’r casgliad fod gwasanaeth archwilio mewnol Cyngor Sir Ceredigion ar hyn o bryd yn cydymffurfio gyda 50 o Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus ac yn cydymffurfio yn rhannol â chwe maes. Ni nodwyd dim enghreifftiau o beidio â chydymffurfio.

Felly, roedd asesiad cyffredinol o ‘Gydymffurfio yn Gyffredinol’ â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn berthnasol.

NOD

Prif nod yr adroddiad hwn yw rhoi ymateb i'r camau a argymhellir yn y Cynllun Gwella a rhoi gwybod i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am y gwaith sydd ar y gweill i fynd i'r afael â'r argymhellion (Atodiad I).

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd yn Saesneg
This document is also available in English

Atodiad I – Ymateb y Rheolwr Corfforaethol Archwilio Mewnol i'r Cynllun Gweithredu er mwyn Gwella gan Ynys Môn

Cyf	Cyf PSIAS	Maes Gwella	Argymhelliad	Cyfrifoldeb	Amserlen
1	1000	Nid yw'r Siarter Archwilio Mewnol yn amlinellu ar hyn o bryd gyfrifoldebau penodol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, na rôl y swyddogion statudol (Prif Swyddog Gweithredol / Prif Swyddog Ariannol / Swyddog Monitro) ynglŷn ag Archwilio Mewnol.	Diweddaru a chael cymeradwyaeth i'r Siarter Archwilio Mewnol a fydd yn cynnwys cyfrifoldebau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Swyddogion Statudol parthed Archwilio Mewnol. **Bydd hyn yn cael ei gynnwys yn y Siarter ar adeg adolygiad blynyddol nesaf y Siarter Archwilio Mewnol.**	Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol	Adolygiad blynyddol nesaf y Siarter Archwilio Mewnol
2	1210	Nid yw'r Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol yn meddu ar gymhwyster proffesiynol Archwilio Mewnol. Fodd bynnag, mae hi'n astudio ar hyn o bryd ar gyfer cymhwyster proffesiynol Sefydliad Siartredig yr Archwilwyr Mewnol (CIIA). Mae pennaeth archwilio mewnol yn gwneud swydd hanfodol yn y Cyngor. Dywed CIPFA mewn Datganiad[1] fod yn rhaid i bennaeth archwilio mewnol, er mwyn cyflawni'r rôl, fod â chymwysterau proffesiynol a phrofiad cymwys.	Dylai'r Cyngor gefnogi'r Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol er mwyn cyflawni, ar y cyfle cyntaf, gymhwyster proffesiynol Sefydliad Siartredig yr Archwilwyr Mewnol (CIIA). **Cytuno – mae cymhwyster y Rheolwr Corfforaethol - Archwilio Mewnol eisoes ar y gweill. Anelu i'w gwblhau o fewn 12 mis.**	Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol	Cyn gynted â phosib

[1]Mae Datganiad CIPFA ar rôl pennaeth archwilio mewnol mewn Sefydliadau Gwasanaeth Cyhoeddus (2019) yn cyd-fynd â Safonau PSIAS (2017) ac yn cysylltu'n benodol â'r Egwyddorion Craidd ar gyfer Gwaith Proffesiynol Archwilio Mewnol.

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd yn Saesneg
This document is also available in English

3	2010	O ganlyniad i bandemig COVID-19, ni wnaeth y Rheolwr Corfforaethol Archwilio Mewnol gynnal yr asesiad risg arferol i ddatblygu'r cynllun archwilio blynyddol yn 2021/22. Ar gyfer 2022/23, tra bod y Rheolwr Corfforaethol Archwilio Mewnol wedi ystyried yr asesiad risg arferol wrth ddatblygu'r cynllun archwilio blynyddol, mae'r rhaglen waith wedi bod yn hyblyg gan ganolbwyntio ar feysydd gwaith a nodwyd yn flaenorol ynghyd â risgiau allweddol o'r gofrestr risg gorfforaethol a cheisiadau penodol am sicrwydd. Yn ogystal, nid yw blaenoriaeth y gwaith i'w wneud yn cael ei nodi'n benodol yn y cynllun blynyddol.	Dylai'r Rheolwr Corfforaethol Archwilio Mewnol newydd barhau i ddatblygu'r broses asesu risg i lywio'r cynllun blynyddol ar gyfer gweithgaredd archwilio mewnol, ac amlinellu blaenoriaeth y gwaith sydd i'w wneud yn y cynllun. Dyma gyfle delfrydol i sicrhau bod y cynllun archwilio blynyddol yn cyd-fynd yn llwyr â fframwaith rheoli risg y Cyngor ac yn canolbwyntio ar y risgiau allweddol i'w amcanion strategol. **Mae'r Rheolwr Corfforaethol Archwilio Mewnol wrthi'n datblygu'r broses o asesu risg er mwyn ymgorffori Cofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor. Cynhelir hyn yn y dyfodol drwy feddalwedd Rheoli Archwilio Pentana.** **Er bod y cynllun presennol yn nodi mai'r flaenoriaeth o ran Archwilio Mewnol yw sicrwydd, bydd Cynlluniau Archwilio'r dyfodol yn nodi'n eglur flaenoriaeth y gwaith ar gyfer y flwyddyn.**	Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol	O fewn 12 mis

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd yn Saesneg
This document is also available in English

Cyf	Cyf PSIAS	Maes Gwella	Argymhelliad	Cyfrifoldeb	Amserlen
4	2050	Cyn pandemig COVID-19, roedd y tîm Archwilio Mewnol wedi datblygu map sicrwydd a oedd yn nodi'r ffynonellau sicrwydd ar draws y Cyngor, ond roedd cwmpas ac aeddfedrwydd y map yn gyfyngedig. Mae'r Rheolwr Corfforaethol Archwilio Mewnol newydd a'r Uwch Archwilydd wrthi ar hyn o bryd yn gwella a chryfhau'r map sicrwydd i gynnwys sylw i sicrwydd yn ehangach a'r defnydd o 'Fodel Tair Llinell/ *Three Lines Model'* Sefydliad Siartredig yr Archwilwyr Mewnol.	Parhau i ddatblygu'r broses o fapio a chategoreiddio ffynonellau sicrwydd i'r Cyngor gan ddefnyddio'r model 'Tair Llinell'. Ar ôl ei gwblhau, cynnwys y map sicrwydd yn y broses o gynllunio'r archwilio blynyddol mewn perthynas â safon PSIAS - 'Cydlynu 2050'. **Caiff Mapio Sicrwydd ei drafod ym mhob cyfarfod tîm. Mae'r Map Sicrwydd bellach wedi'i wella ac yn defnyddio'r 'Model Tair Llinell'. Hefyd mae'n cynnwys sylw eang i sicrwydd o ffynonellau eraill, a sicrwydd cofnodion ar gyfer y ddwy risg ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol a hefyd risgiau eraill y mae Archwilio Mewnol yn ymwybodol ohonynt ac a allai barhau i beri risg i flaenoriaethau'r Cyngor.**	Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol	O fewn 12 mis

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd yn Saesneg
This document is also available in English

Cyf	Cyf PSIAS	Maes Gwella	Argymhelliad	Cyfrifoldeb	Amserlen
5	2220	Nid yw archwilwyr yn cyhoeddi dogfen ffurfiol sy'n amlinellu cwmpas ac amcanion pob archwiliad cyn iddo ddechrau, nac ychwaith yn ceisio 'cytundeb' o'r cwmpas gyda'r Pennaeth Gwasanaeth/ Rheolwr perthnasol. Fel arfer, rhoddir hysbysiad o waith archwilio yn anffurfiol drwy e-bost, ac ati, cyn yr archwiliad. Mae ymgysylltu'n ffurfiol â'r gwasanaeth perthnasol cyn yr archwiliad a chytuno ar gwmpas y gwaith ymlaen llaw yn helpu i greu ymrwymiad i'r archwiliad a'r argymhellion a nodir yn ei sgil a pherchnogaeth drostynt.	Cyflwyno proses o ddogfennu, cyflwyno a chytuno ar gwmpas archwilio ffurfiol gyda'r rheolwyr cyn i'r gwaith archwilio ddechrau. Mae'r tîm Archwilio Mewnol wrthi'n rhoi meddalwedd newydd ar waith ar gyfer archwilio mewnol (Pentana MKI) sydd â'r gallu i gwmpasu archwilio ac felly gellir ei defnyddio at y diben hwn. **Crëwyd Dogfen Cwmpasu a fydd yn cael ei rhoi i archwilwyr fel ymgysylltiad ffurfiol cyn i'r archwiliad ddechrau, i amlinellu cwmpas ac amcanion pob archwiliad.** **Gwneir hyn drwy Pentana yn y dyfodol.**	Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol	O fewn 12 mis

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd yn Saesneg
This document is also available in English

Cyf	Cyf PSIAS	Maes Gwella	Argymhelliad	Cyfrifoldeb	Amserlen
6	2421	Yn ymarferol, os yw adroddiad archwilio yn cynnwys gwall sylweddol neu'n hepgor rhywbeth ac mae angen ei gywir, bydd y Rheolwr Corfforaethol Archwilio Mewnol neu'r archwilydd perthnasol yn sicrhau bod fersiwn ddiweddaredig yn cael ei chyflwyno i'r holl dderbynwyr ar y rhestr ddosbarthu wreiddiol. Fodd bynnag, nid yw'r broses hon wedi'i chynnwys yn y Llawlyfr Archwilio.	Diweddaru'r Llawlyfr Archwilio Mewnol i gyd-fynd. **Bydd hyn yn cael ei ddiweddaru yn y Llawlyfr Archwilio.**	Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol	O fewn 3 mis
7	2450	Nid yw Adroddiad Blynyddol 2021/22 y Rheolwr Corfforaethol Archwilio Mewnol, sy'n cynnwys y farn archwilio gyffredinol ar gyfer y cyfnod, yn cynnwys unrhyw gyfyngiadau ynghylch cwmpas. Mae cyfyngiadau ynghylch cwmpas yn bodoli ym mhob achos o waith archwilio mewnol. Ni ellir dibynnu ar archwilio mewnol, yn enwedig tîm bach, i nodi'r holl gryfderau a gwendidau a geir yng ngweithrediadau'r Cyngor. Mae'n bwysig nodi bod y cyfrifoldeb am system gadarn o reolaethau mewnol yn gorwedd yn y pen draw gyda'r rheolwyr ac ni ddylid ymdrin â gwaith archwilio mewnol fel rhywbeth sy'n cymryd lle cyfrifoldebau'r rheolwyr i roi arferion rheoli mewnol cadarn ar waith.	Cynnwys adran yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer unrhyw gyfyngiadau ynghylch cwmpas ar gyfer Archwilio Mewnol yn y flwyddyn dan sylw. **Mae cyfyngiadau ynghylch cwmpas wedi cael eu hadrodd yn y gorffennol, drwy eithriad.** **Bydd adran yn cael ei chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol nesaf (2022/23) i gynnwys unrhyw gyfyngiadau o ran cwmpas ar gyfer y flwyddyn.**	Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol	Adroddiad Blynyddol nesaf (2022/23)

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd yn Saesneg
This document is also available in English

Cyf	Cyf PSIAS	Maes Gwella	Argymhelliad	Cyfrifoldeb	Amserlen
8	2500	Ers dechrau pandemig COVID-19, nid yw'r tîm archwilio mewnol wedi dilyn camau y cytunwyd arnynt gyda'r rheolwyr i sicrhau bod gwasanaethau yn eu gweithredu'n effeithiol, neu fod uwch-reolwyr yn derbyn y risg o beidio â gweithredu.	Ailosod y broses dilyn i fyny. Mae gan system Pentana (MKI) y gallu i olrhain camau gweithredu, felly gellir ei defnyddio at y diben hwn unwaith y bydd ar waith. **Mae'r broses o ddilyn i fyny'r camau a argymhellir wedi cael ei hadfer ar gyfer 2022/23.** **Mae gwaith ar fin mynd rhagddo i asesu a fyddai'n werth ailedrych ar argymhellion o'r gorffennol na chafodd eu dilyn i fyny oherwydd pandemig Covid-19.** **Bydd y broses yn cael ei chynnwys yn y dyfodol yn system Rheoli Archwilio Pentana, lle gellir cynhyrchu adroddiadau monitro, a'i hadrodd i GAC.**	Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol	O fewn chwe mis